

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Mae'n ymddangos bod yna gyfnod anodd a heriol o'n blaenau ni i gyd wrth gydweithio i atal lledaeniad y firws yn ein cymunedau. Ar y cyfan, mae ymateb eich plant i'r mesurau diogelwch sydd yn eu lle yn yr ysgol yn dda iawn. Rydym yn parhau mewn cyfnod ble mae angen i bob un ohonom i llynu at y mesurau diogelu pwysig yma er mwyn i ni allu amddiffyn bob un sydd yn gysylltiedig â chymuned yr ysgol. Gofynnwn i chi bwysleisio pwysigrwydd y mesurau diogelwch cofid yma i'ch plant, yn ogystal â mynnu eu bod yn osgoi ymgynnull neu gwrdd gyda phobl o deuluoedd gwahanol y tu allan i'r ysgol. Gyda'n gilydd fe allwn weithredu er lles pob un sydd yn gysylltiedig â chymuned yr ysgol.

Mae materion pwysig i'w rhannu gyda chi isod sy'n cynnwys presenoldeb a hefyd ein cynlluniau rhag ofn y byddai angen i grwpiau blwyddyn hunan ynysu, fel rydym wedi gweld yn digwydd mewn ysgolion uwchradd ar draws Abertawe a Chymru.

CANLLAWIAU DYSGU O BELL (yn ystod cyfnod Cofid-19)

Dyma wybodaeth gryno i chi o'r camau y byddwn ni'n eu cymryd i sicrhau bod eich plentyn yn parhau i ddysgu, petai gorfodaeth i grwpiau o ddisgyblion hunanynysu yn ystod yr wythnosau/misoedd i ddod.

- Bydd pob adran yn gosod gwaith ar Show My Homework ac yn cyfathrebu gyda'ch plentyn yno ac ar Microsoft Teams. Er mwyn cael cymorth ar sut i gael mynediad at Teams, ewch i <https://www.youtube.com/watch?v=9mHy5OqBFfg> ble mae fideo defnyddiol gan Mr Fletcher yn esbonio'r cyfan.
- Lle bo'n bosib, byddwn ni'n cadw at amserlen eich plentyn ac yn cynnal gwersi arlein drwy Microsoft Teams er mwyn esbonio gwaith ac i ateb unrhyw gwestiynau. Byddwn ni'n recordio'r gwersi hyn ar gyfer unrhyw ddisgyblion sy'n methu ag ymuno'n fyw. Os nad oes modd cynnal gwersi fyw, byddwn ni'n recordio esboniadau o waith eich plentyn o flaenllaw a bydd y recordiadau ar gael ar Teams er mwyn cynorthwyo'ch plentyn gyda'r gwaith.
- Rydym yn argymhell bod llyfrau/pecynnau gwaith eich plentyn yn aros gyda nhw yn ystod y cyfnod hwn. Yn aml, mae hunanynysu yn gorfod digwydd yn gyflym iawn ac felly rydym yn argymhell bod y disgyblion yn cadw eu gwaith gyda nhw er mwyn gallu defnyddio'r adnoddau adref ar unrhyw achlysur.
- Dylai eich plentyn fod yn hyderus wrth ddefnyddio Teams. Os nad ydyn nhw, mae fideos defnyddiol iawn yn eu 'Team' blwyddyn gan Mr Fletcher i'w cynorthwyo gyda'r gwaith.
- Bydd adrannau yn cytuno ar ffordd o roi adborth i'ch plentyn ac yn gwneud hynny yn unol â phenderfyniad yr adran ar ôl i'ch plentyn gyflwyno darn o waith.



Ein nod ydy sicrhau bod ein disgyblion yn parhau i gael mynediad at eu haddysg ac at arweiniad gan eu hathrawon gan aros yn ddiogel ar bob adeg.

Nid ydym yn ffrydio gwersi mewn achosion unigol os yw eich plentyn adre'n sal neu yn hunan ynysu tra'n aros am ganlyniad prawf / oherwydd bod symptomau gan aelod o'r teulu. Serch hynny, os ydynt yn ddigon iach i weithio, mae croeso i ddisgyblion i gysylltu gyda'u hathrawon drwy SMHW neu Teams i dderbyn gwaith. Os yw eich plentyn yn y 6ed, mae'n bosib ffrydio gwersi i unigolion, unwaith eto os ydynt yn ddigon iach i weithio.

OFFER DIGIDOL

Un her yw bod adnoddau digidol addas gan bob disgybl i allu parhau i weithio o bellter. Yn ystod y cyfnod clo cyn yr haf, fe lwyddon ni i rannu dros 120 o liniaduron gyda disgyblion oedd eu hangen er mwyn gallu parhau i



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



weithio o bell. Gofynnwn yn garedig i rieni sicrhau bod eu plant yn dychwelyd y cliniaduron yma cyn gynted fel y gallwn eu diweddarau.

Yn naturiol, mae'n bosib iawn y bod sefyllfaoedd unigolion wedi newid ers yr adeg yma, felly gofynnwn i chi fel rhieni i lenwi'r [holiadur yma](#) os fydd angen i'ch plentyn fenthyg gliniadur ar gyfer parhau gyda'i waith petai angen i ddisgyblion hunan ynysu am gyfnod. Bydd derbyn pob un yn ol yn rhoi cyfle i ni rhannu'r adnoddau digidol gwerthfawr yma gyda disgyblion fydd angen hunan ynysu, os bydd rhaid cymryd y camau yma.

PRESENOLDEB:

Mae'n braf gweld cymaint o ddisgyblion yn setlo nôl i fywyd ysgol ac yn elwa'n fawr o'r profiadau gwerthfawr sydd ar gael ym Mryn Tawe. Yn anffodus mae nifer fach o'n disgyblion yn absennol ac wedi colli diwrnodau diangen, ac rydym wrthi yn siarad a gweithio gyda'r teuluoedd yma. Hoffwn atgoffa pawb fod presenoldeb dyddiol yn yr ysgol nawr yn orfodol (o'r 14eg o Fedi) i bob disgybl, ac **anogir pob disgybl i fod yn bresennol bob dydd, oni bai bod rheswm da nad ydynt yn gallu mynychu**. Mae disgyblion wedi colli llawer o ysgol dros y misoedd diwethaf, ac mae'n allweddol bwysig iddynt fynychu cymaint â phosib er budd eu cyrhaeddiad academaidd a'u lles personol. Os ydych yn ansicr a ddylai eich plentyn fynychu oherwydd Cofid - dilynwch y [canllawiau yma](#).

Rydym yn cydweithio'n agos gyda'n Swyddog Lles/Addysg (Mrs Rhiannon Smith) a phetai pryder am les neu bresenoldeb disgybl, byddwn yn cyfeirio disgyblion a theuluoedd ati hi am gymorth trwy alwad ffôn neu ymweliad cartref.

Os oes pryder neu gwestiwn gennych am yr uchod, cysylltwch gyda'r Arweinydd Dysgu perthnasol (gweler isod) neu Mr Mark Bridgens.

BI7 - Mrs Angharad Stephen

BI8/CA3 - Miss Heledd Clarke

BI9 - Mrs Rhian Davis

BI10 - Mrs Naomi Tootill Evans

BI11/CA4 - Mr Chris Jones

6ed dosbarth - Mr Ben Davies

TREFNIADAU GOLLWNG DISGYBLION YN Y BORE

Diolch i'r nifer llethol o'n rhieni / gwarcheidwaid sydd yn dilyn ein disgwyliadau diogelwch wrth ollwng eich plentyn yn yr ysgol pob bore. Hoffwn atgoffa pob rhiant felly o'r trefniadau yma sydd yn eu lle er lles diogelwch pob un o'n disgyblion.

- **Ni ddylai unrhyw gerbyd deithio yn gyflymach na 10mya.**
- Dylid tynnu i mewn i'r palmant er mwyn gollwng eich plentyn. Mae hwn yn sicrhau nad oes cerbyd arall yn eich pasio ar y tu fewn, ble fydd eich plentyn yn ceisio croesi!
- Yn ogystal, bydd tynnu i mewn mor agos i flaen y ciw ag sy'n bosib yn sicrhau bod llif y traffig yn parhau i symud yn llyfn ac yn ddiogel ac yn osgoi tagfeydd hir ar hyd y lôn i'r ysgol ac allan i'r brif heol.
- Ni fydd yr ysgol yn agor tan 08:15. Mae angen ystyried hyn ar ddiwrnodau glawog i arbed bod eich plentyn yn gwlychu yn y bore.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr uchod, mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol ar unrhyw adeg.

Yn gywir,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yggy.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur

